## Am bwy rydym ni'n chwilio

Mae gan ein Swyddogion Cynllunio rôl allweddol yn creu a chynnal ein rhaglen waith. Byddwch chi'n gyfrifol am gynllunio arolygiadau, defnyddio adnoddau arolygu, a rheolaeth weithredol data a systemau cynllunio. Byddwch yn cefnogi amserlennu effeithiol a chyflawni gweithgarwch arolygu a gweithgarwch nad yw'n ymwneud ag arolygu, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn unol â blaenoriaethau sefydliadol.

**Mae tasgau allweddol yn cynnwys:**

- Amserlenni a chynllunio gweithgarwch arolygu a gweithgarwch dilynol ar draws sectorau yn unol â'r rhaglen waith flynyddol
- Gweithio'n agos gyda Chydlynwyr Arolygu a staff Contractau i gefnogi cynllunio a hysbysiadau arolygu
- Rheoli newidiadau i amserlennu arolygu ac ailgyfeirio adnoddau i gyflawni blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg
- Cynllunio a rheoli gweithgarwch thematig a gweithgarwch nad yw'n ymwneud ag arolygu o fewn y rhaglen waith
- Nodi a datrys gwrthdaro o ran adnoddau a materion capasiti
- Rhoi cyngor a chymorth i Gyfarwyddwyr Cynorthwyol ar faterion adnoddau arolygu
- Rheoli a chynnal systemau cynllunio a defnyddio, gan sicrhau cywirdeb ac uniondeb data
- Datblygu a chynnal gwybodaeth reoli i lywio cynllunio, adrodd a monitro perfformiad
- Nodi gwelliannau i systemau, cyfrannu at fanylebau a chefnogi profion derbynioldeb i'r defnyddiwr
- Datblygu a chymhwyso prosesau sicrhau ansawdd i sicrhau cywirdeb gweithgarwch cynllunio a defnyddio
- Cynnal cofnodion cywir yn ymwneud â defnyddio'r gweithlu, diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith a gweithgarwch gweithredol arall
- Bod yn gyfrifol am broses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a phroses adnewyddu arolygwyr dan gontract
- Cyfrifoldeb rheolaeth llinell am Swyddog Gweinyddol

# Manyleb yr unigolyn

**Meini prawf penodol y swydd**

Mae'n hanfodol:

- Eich bod yn hynod drefnus, a bod gennych fedrau rheoli amser cryf a'r gallu i reoli blaenoriaethau cystadleuol
- Eich bod yn gallu cwblhau gwaith cywir yn unol â therfynau amser tynn
- Bod gennych chi brofiad o feithrin perthnasoedd gwaith effeithiol, yn cynnwys gydag uwch reolwyr a rhanddeiliaid allanol
- Bod gennych y gallu i ddangos sylw cryf i fanylder
- Bod gennych brofiad o ddefnyddio gwybodaeth a data i lywio penderfyniadau a gwella prosesau
- Eich bod yn meddu ar fedrau cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd da
- Eich bod yn hyderus o ran defnyddio systemau TG, yn cynnwys Microsoft Office
- Eich bod yn dangos dull hyblyg sy'n canolbwyntio ar ddatrysiadau
- Eich bod yn meddu ar fedrau rheoli ac adrodd ar ddata

Mae'n ddymunol:

- Bod gennych chi brofiad o ddefnyddio systemau cynllunio a rheoli gweithlu
- Eich bod yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg

**Ymddygiadau allweddol**

- Gweld y darlun mawr
- Cydweithio
- Rheoli gwasanaeth o ansawdd da
- Cyflawni ar gyflymdra

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ac enghreifftiau o'r ymddygiadau hyn yn Proffiliau Llwyddiant - Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil ar gradd (EO).

